**Hannah Blythyn AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd**
**Minister for Environment**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-/HB/3068/18

Aelodau Llywodraeth Cymru

9 Hydref 2018

Annwyl Aelod Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn tynnu eich sylw at newidiadau pwysig i eithriadau o safbwynt trwyddedu gwaith tynnu dŵr yng Nghymru.

Yn y gorffennol, roedd rhai tynwyr dŵr wedi'u heithrio rhag gorfod cael trwydded i dynnu dŵr. Er mwyn rheoli'n hadnoddau dŵr yn effeithiol ac yn deg, rydym wedi diddymu'r eithriadau hyn ers 1 Ionawr 2018 a bydd angen trwydded bellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu dŵr.

O dan Reoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Eithriadau) 2017 (O.S. 2017/1047) os byddwch yn tynnu mwy nag 20 o fetrau ciwb (4,400 o alwyni) mewn dydd o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear fel afon, ffynnon neu dwll turio byddwch angen trwydded yn fwy na thebyg. Caiff unrhyw eithriadau eu nodi yn Rheoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Eithriadau) 2017. Gall safleoedd a arferai fod yn rhai eithriedig gynnwys ffermydd, parciau carafanau, chwareli a safleoedd gwaith diwydiannol.

Bydd modd gwneud cais am y drwydded **hyd at 31 Rhagfyr 2019**. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am roi trwyddedau tynnu yng Nghymru ac maent yn annog tynwyr i gyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael ar gyfer trafod unrhyw faterion neu bryderon.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio taflen wybodaeth a gallwch gysylltu â nhw ar 0300 065 3000 os oes gan eich etholwyr unrhyw gwestiynau ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cyflwyno cais am drwydded neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnynt am y newidiadau hyn. Mae'r daflen a rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-abstraction-and-impoundment/changes-to-water-abstraction-licensing-exemptions/?lang=cy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn eich annog i rannu'r wybodaeth hon â'ch etholwyr, ac yn arbennig y sector amaeth os yw ffermwyr yn tynnu dŵr, gan y gallai fod angen iddynt gyflwyno cais am drwydded dynnu yn sgil y newidiadau hyn.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment